# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN, AM 7.30y.h. NOS LUN, 4ydd EBRILL, 2022.**

**1. CROESO**

Croesawodd y Cynghorydd Hefin WILLIAMS pawb i'r cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr John EVANS; Gwyndaf O. ROBERTS; John D. ROBERTS; Goronwy R. WILLIAMS; Bryn JONES; Hefin WILLIAMS.
Bu i bawb sefyll er cof am y Cynghorydd Tudur W JONES

**3. YMDDIHEURIADAU**

Hwyr yn cyrraedd: Y Cynghorwyr Irwedd GRIFFITHS(Cadeirydd); D. Gwyn JONES ac Ifor G. LLOYD (Cynghorydd Sir)

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

**5. MUNUDAU**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Fawrth, 2022. (Cynnig y Cynghorydd John D ROBERTS ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS)

**6. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**7. CYLLID**

a. Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Mawrth 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a’r adroddiadau banc fel a restrir isod:-
Arian i Mewn = £240.00 (Grant Covid gan CBSC)
Arian Allan = £6.20 (Costau Banc - DR)

= £163.00 (Aelodaeth Blynyddol Un Llais Cymru - 200131)
= £40.00 (Cost Blynyddol ICO GDPR - 200129)

Cyfrif Cymunedol = £9,475.37
Cyfrif Busnes = £5,551.60

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

b. Ynglyn a bancio ar lein, mae'n nawr bosib talu allan o'r cyfrifon gyda'r teclyn diogelwch a roddwyd gan fanc yr HSBC i'r Clerc.

**8. GOHEBIAETH**

a. Llythyr i berchennog y beic modur sydd yn cael ei barcio ar Ffordd Abergele, Betws yn Rhos.

b. Llythyr i gwmni Vantage FeeProtect – Yn gwrthod ei cynnig yswiriant.

c. Ateb i ebost Aloma Wheway ynglun a chyflwr rhai o'r mannau cyhoeddus yn y pentre.

d. Llythyr o ddiolch i Hilda Gibbs am ei Gwaith yn tacluso rhai o'r mannau cyhoeddus o gwmpas pentref Betws yn Rhos.

e. Ebost i CSBC i ofyn iddynt yrru y cerbyd glanhau ffordd o gwmpas ffyrdd y pentrefi yn yr ardal.

f. Ebyst i, a gan CBSC yngun a darpar i'r cae Chwarae yn Betws yn Rhos

g. Ebost i Community Funding ynglun a darpar i'r cae chwarae yn Betws yn Rhos

h. Llythyr a siec i Un Llais Cymru yn ail-aelodi am y flwyddyn 2022-2023.

i. Ebyst i, a gan y Woodland Trust ynglun a coeden iw phlannu ar gyfer y Jiwbili.

j. Ebyst gan gwmni Yswiriant Zurich i adnewyddu ein yswiriant.

**9. GRANTIAU**

Cais gan Kids Cancer Charity – Cael ei gadw gyda ceisiadau y flwyddyn nesa

**10. CYNLLUNIO**

a. 12.21/12 (iv) 0/49181 Cymeradwyo amod rhif 4 (Tirlunio Caled a Meddal) ar ganiatâd cynllunio 0/44848 (Adeiladu annedd, mynedfa a gwaith peirianyddol cysylltiedig): Plot 5 The Granary Cottages Betws Yn Rhos Abergele Conwy - Mr Barry McDowell. Dim gwrthwynebiad i'r cais ond roedd poeni am enw saesneg y lleoliad. Roedd y Clerc wedi gyrru ymholiad i'r Cyngor Sir ac yn awr yn dal i ddisgwyl ateb gan yr Adran Drwyddedu.

b. 0/48681 Mr Enfys Parry, Oak Tree Farm, Ffynhonnau Road, Betws yn Rhos, Abergele LL22 8AB: Cadw a defnyddio carafan statig fel llety gwyliau – Mae hwn yn ail gais yn

dilyn gofyniad mwy o wybodaeth gan yr Adran Gynllunio. Mae'r cynnig yn nawr wedi ei wrthod gan yr Adran Gynllunio.

c. 0/49368 a 0/49521Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt Cynllun: Adeiladu 2 adeilad amaethyddol (Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Amaethyddol) Safle: Aelwyd Uchaf Cill Llidart Road Betws Yn Rhos Conwy LL22 8AG – Fe oedd gwrthwynebiad i'r cynllun yma oherwydd ardrawiad gweledol; ar ffordd/llwybr treftadaeth; maint a mesur yr adeiladau wrth gysidro bodolaeth defnydd amaethyddol y tir.

d. Cyfeirnod: 0/49506 Ymgeisydd: Ms Karena Taylor Cynllun: Cais llawn i leoli stablau at ddefnydd preifat yn unig, gosod llawr caled yn atodol i ddatblygiad a mynedfa newydd o'r briffordd. Safle: Tir gyferbyn a Ffordd y Mynydd Betws-yn-Rhos Conwy Wales LL22 8FD. Fe oedd gwrthwynebiad i'r cynllun yma oherwydd diffyg gwybodaeth am ddefnydd hir dymor y cynllun.

e. Cyfeirnod: 0/49463 Ymgeisydd: Glenys Roberts Cynllun: Ailadeiladu ty allan presennol sy'n fregus yn strwythurol er mwyn dod â'r amlen thermol yn unol â safonau presennol. Bydd yn cynnwys lle i gegin fwy, swyddfa gartref ychwanegol, ystafell gyfleustodau, garej ac ystafell wely, ystafell ymolchi ac ystafell fyw ar y llawr cyntaf. Safle: Ty Newydd Cilgwyn Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YR. Dim gwrthwynebiad.

f. Roedd tri cynnig cynllunio arall ar yr Agenda ond roeddynt yn disgyn ar y ffin ond o dan ardal Cynghorau Cymuned eraill.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Y Clerc yn awr i ddechrau paratoi at Archwiliad y Flwyddyn 2022-2023.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Does dim cais yn awr am greu y Fferm Wynt a fu'n destyn trafodaeth am y misoedd diwethaf. Felly cawn dynu y mater yma oddi ar yr Agenda.
b. Cadarnhau y bydd Ffordd Llanelian o'i chyffordd gyda Ffordd Dolwen yn cael ei hadnewyddu yn fuan yn y flwyddyn ariannol Newydd.

**13. GOSOD PLAC – CYFLAWNIAD Ms GEORGIA WILSON**

9.21/6(i) Mae'r plac wedi ei gyflawni ac angen cael ei nol. Bydd y plac yn cael ei roi I fyny yn y ganolfan chwaraeon yn Mis Mehefin a'i ddad-orchuddio ar ddiwrnod dathlu y Jiwbili fel rhan o'r digwyddiadau.

**14. JIWBILI PLATINWM Y FRENHINES**

01.22/15 (ii). Dathliad/Jiwbili Platinwm Y Frenhines – 2 Mehefin 2022. Yn ychwanegol i'r drafodaeth yn y pwyllgorau diweddar bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i gyd weithio gyda pwyllgorau lleol eraill yn Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos i wneud y diwrnod yn gofiadwy.

**15. RHEOLIADAU a CHYRSIAU i GYNGHORWYR a CHLERCOD**

01.22/15 (iv). Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021. Mae'r cyrsiau hyn ar gael am ddim. Penderfynwyd gadael yr item yma ar yr Agenda ac hwyrach y bydd y cyrsiau o werth i unrhyw gynghorydd newydd a fyddai'n ymuno ar ol yr etholiadau yn Mis Mai.

**16. ETHOLIADAU LLEOL**

Bydd yr etholiadau lleol yn cymerd lle ar Ddydd Iau y 5ed o Fai 2022. Mae posterau wedi ei rhoi ar fyrddau gwybodaeth Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos a bydd digon o hysbsiadau yn y cyfryngau am yr etholiadau. Bydd papurau noddi y Cynghorwyr sydd yn dal i sefyll a'r rhai newydd wedi ei cofrestru gyda'r Cyngor Sir erbyn 4:00yh Dydd Mawrth y 4ydd Ebrill.

**17. ATGYWEIRIO'R FFYNNON AR FFORDD ABERGELE, BETWS YN RHOS.**

Mae perchennog yr adelilad - Ty Gwyn, yn barod i atgyweirio y gwaith cerrig ac adnewyddu y ffynnon cyn belled a phosib iw stad gwreiddiol. Bydd y Cyngor Cymuned yn barod i roi cymorth ble y gallent neu fel fydd angen.

**18. TACLUSO O GWMPAS Y PENTREF.**

Yn dilyn llythyr i'r Cyngor Sir, mae lorri glanhau'r ffordd wedi bod o gwmpas yn tacluso ochor y ffyrdd i gyd. Dal i aros i'r Cyngor Sir docio y goeden sydd fel arfer yn dal rhai o oleuadau'r Nadolig. Llythyr hefyd wedi ei yrru i ddiolch i un o'r bentrefwyr Betws yn Rhos am dacluso rhai o'r mannau cyhoeddus.

**19. CYFARPAR CHWARAEON I BLANT IAU AR Y CAE CHWARAE.**

Cafwyd ateb eitha ffafriol gan y Cyngor Sir y byddai ychydig o gymorth yn bosib tuag at adnewyddu a ehangu ar y cyfarpar plant ar y cae chwarae, ond bod angen gwneud cynllun ar beth sydd ei angen. Bydd angen trafod y cynllun gyda'r gymuned a gobeithir gwneud hyn drwy'r dudalen We. Cafwyd hefyd gopi o'r adroddiad cynnal a chadw diweddaraf ar y darpar a gwelwyd fod rhai o'r offer yn dod i ddiwedd ei hoes ac y byddai angen ei newid. Mae hefyd bosib y byddai ffynhonell ariannol arall ar gael ac i'r Clerc edrych i mewn i hyna.

**20. FFOADURIAID O'R WCRAIN.**

Yn sgil y trychinebau sydd yn dal i fynd ymlaen yn yr Wcrain penderfynwyd gyrru rhodd o £200 i'r DEC (Disasters Emergency Committee) sydd yn cael ei gefnogi gan Llywodraeth Cymru. Hefyd bydd angen edrych ar gymorth uniongyrchol ariannol ac ymarferol i unrhyw ffoadur neu deulu o ffoaduriaid a fyddai yn cyrraedd ardal y Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

**21. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. Penderfynwyd edrych ar wahanol gostau cael sgrin/monitor ar y wal yn y ddwy ganolfan sydd gyda camera wedi ei gynnwys oddifewn.

**22. UNRHYW FATER ARALL**

a. Roedd un o frodorion y gymuned wedi dod ymlaen i gwyno am rai o'r lonydd gwyrddion/llwybrau sydd yn brysur gor dyfu ac yn ei gwneud yn anodd troedio neu feicio ar ei hyd. Cynigiodd Y Cynghorydd Ifor LLOYD bod angen gwneud archwyliad i faint ac ymhle oedd y lonydd a'r llwybrau hyn a gwneud dynesiad i'r Cyngor Sir amdanynt i gyd.

b. Cafwyd gwybodaeth hefyd am arwydd ffordd hen ffasiwn oedd yn awr wedi torri/plygu ar gornel Plas yn Betws a Capel Bach Sion. Byddai'n dda medru ei adnewyddu neu cael y Clwb Hanesyddol i gymeryd diddordeb ynddo.

c. Diolchodd y Cynghorydd John D ROBERTS, ar ran y Cyngor, i'r Cynghorydd Gwyndaf ROBERTSoeddy n nawr yn ymddeol, am ei wasanaeth gweithgar, ffyddlon, a chydwybodus dros y degau o flynyddoedd a oedd wedi ei roi oi wirfodd fel Cynghorydd yn yr ardal.

d. Angen rhoi nodyn o atgof ar Agenda y pwyllgor nesaf i drefnu noswaith i ddiolch i swyddogion y Cyngor sydd yn, a wedi ymddeol yn ddiweddar.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.05y.h.

CADEIRYDD……………………………………………………DYDDIAD…………………………………